

Gweithiwr Cefnogi Iechyd Meddwl

Camau Nesaf

G03 - £27,254.00 - £28,598.00 (pro rata)

Llawn Amser x 1 (37 hours)

Rhan Amser x 1 (18.5 hours)

Gweithiwr Cefnogi Iechyd Meddwl

Camau Nesaf

Pan fyddwch yn Weithiwr Cefnogi Iechyd Meddwl gallwch wneud gwir wahaniaeth.

Mae Camau Nesaf yn cefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sy'n niwrowahanol, i wella eu lles trwy addysg, gwirfoddoli a chyflogaeth.  Gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i gymryd rhan yn eu cymuned leol.  Byddwch yn darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol gyda'r nod o hyrwyddo annibyniaeth, hyder ac ansawdd bywyd.

Byddwch yn trefnu a hyrwyddo llyfryn llwyddiannus Lles ac Adferiad Sir y Fflint, gan gynnig cyrsiau a gweithgareddau i oedolion yn Sir y Fflint.

Fel rhan o'n tîm, byddwch yn darparu cefnogaeth hyblyg i bobl, yn unol ag egwyddorion "adferiad" a "beth sy'n bwysig" gan alluogi pobl i arwain bywydau cyflawn ac ystyrlon.

Rydym yn edrych am gydweithwyr newydd sy'n deall anghenion pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a niwro-wahaniaeth a'r rhwystrau a wynebant.  Dylech fod ag agwedd anfeirniadol a gallu trin unigolion gydag urddas a pharch.

Mae Lefel 3 ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau neu gymhwyster gofal cymdeithasol cyfwerth yn ddymunol. Fodd bynnag, os ydych yn barod i ddilyn hyfforddiant perthnasol a gweithio tuag at Gymhwyster Gofal Cymdeithasol mae croeso i chi wneud cais.

Rydym wedi ymrwymo i gyfleoedd cyfartal a hybu cynhwysiant, ac rydym eisiau herio'r stigma o amgylch iechyd meddwl.   Rydym yn cynnig trefniadau gweithio'n hyblyg i hwyluso cydbwysedd bywyd a gwaith, yn ogystal â chynllun pensiwn, hawl i wyliau blynyddol hael a buddion llywodraeth leol eraill.

Os yw hyn yn swnio fel rhywbeth y byddai gennych ddiddordeb ynddo, yna hoffem glywed gennych. Peidiwch ag oedi, ymgeisiwch yn awr, neu cysylltwch ag 01792 002129 am sgwrs